

Fy nhaith ddysgu yn Y Gymraeg



Uned ymholi: Beth yw effaith a phwysigrwydd y môr ar ein bywydau?

Gwybodaeth a dysgu blaenorol Ystyried geirfa ac amrywiaeth cystrawen. Sgiliau trafod a rhesymu. Sgiliau darllen a dehongli testun ffeithiol a chreadigol.:

Yn ystod eich taith mi fyddwch yn …

1. **Creu storm eirfa am y môr a chreu brawddegau yn datblygu ansoddeiriau addas.**
2. **Trafod a chymharu dwy gerdd o ddau gyfnod gwahanol sy'n trafod lan y môr**
3. **Darllen ac ymchwilio i fywyd Barti Ddu a môr ladron**
4. **Ysgrifennu darn creadigol am fywyd môr leidr**
5. **Trafod, darllen, gwylio a gwrando ar ffeithiau am yr hyn sy'n llygru'r môr a'i effaith. Trafod camau sut i wella'r sefyllfa.**
6. **Ysgrifennu llythyr ffurfiol yn mynegi barn am y llygredd sydd yn y môr**
7. **Creu imovie i addysgu disgyblion yr ysgol am y llygredd sydd yn y môr**
8. **Ystyried a thrafod safbwynt bardd am y môr. *Ysgrifennu gwerthfawrogiad o'r gerdd***
9. **Darllen a chwblhau tasgau ar y nofel ddosbarth**

**Yr ydym ar y daith hon oherwydd …**

**Ein bod yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n cysylltu a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion**

**Rydym yn arwain ac yn chwarae gwahanol rolau mewn timau yn effeithiol ac yn gyfrifol ac yn gallu mynegi syniadau ac emosiynau trwy wahanol gyfryngau**

**Rydym yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gosod safonau uchel ac yn ceisio ac yn mwynhau her**

**Rydym yn gallu adeiladu corff o wybodaeth ac â'r sgiliau i gysylltu a chymhwyso'r wybodaeth honno mewn gwahanol gyd-destunau**

**Rydym yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau,**

**Rydym yn ddinasyddion moesegol, gwybodus sy'n dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned**

Eich tasgau:



**Tasg 1: Cymharu dwy gerdd ar y thema Ar lan y môr / ysgrifennu am gerdd yn gysylltiedig â'r môr**

**Tasg 2: Tasg greadigol ar fôr ladron**

**Tasg 3:Llythyr yn mynegi barn am lygredd yn y môr**

**Tasg4: imovie yn cyflwyno ffeithiau am y llygredd sydd yn y môr a'r effaith. Addas ar gyfer disgyblion ysgol.**